Lle Natur Cymunedol Llys Brenig

Disgrifiad o Luniau i Bobl Ddall

Mae'r Safle Natur Cymunedol arfaethedig yn y cae ger Llys y Brenig rhwng parc Ffordd Elan a'r siopau. Byddai mynediad o Lys y Brenig wrth ymyl giât bresennol y parc ac o'r ddôl y tu ôl i'r archfarchnad.

Byddai gwrychoedd newydd yn cael eu plannu o amgylch perimedrau'r cae a byddai ardaloedd bychain o goetir yn cael eu creu yng ngogledd a de'r safle; hynny yw, wrth ymyl y parc ac yn agos at y gylchfan.

Byddai prif ran y cae yn ddôl blodau gwyllt gydag ardal wlypdir ganolog yn y pantiau presennol.

Byddai llwybrau ffurfiol ac anffurfiol yn darparu cylchrediad drwy'r safle. Byddai meinciau'n cael eu gosod i alluogi ymwelwyr i eistedd a mwynhau'r Safle Natur Cymunedol ac o bosibl byddai hefyd ardal eistedd anffurfiol. Ym mhob rhan o’r safle, byddai rhai coed hirgyff unigol yn cael eu plannu.